CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 16eg Rhagfyr 2024
Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 16th December 2024

Yn Bresennol/Present:
Cynghorwyr/Councillors Douglas Davies, Peter Evans, Gethin Jones, Sue Lloyd, Eifion Rees, Ben Scott Jones a/and Chynghorydd Sir De Llandysul / County Councillor Llandysul South Keith Evans
Ymddiheuriadau/Apologies Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Gynghorwyr Eileen Curry, Beth Davies, Andrew Howell a Maldwyn Lewis / Apologies for absence were received from Cllrs Eileen Curry, Beth Davies, Andrew Howell and Maldwyn Lewis.

Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest
Ni ddatgelwyd unrhyw Fuddiannau. / There were no declaration of Interest.

Adroddiad/Report

Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies 8176, yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. / A report was received from PCSO Anwen Davies 8176 providing a Crime and Incident Update for the Councils area.
Isod, gweler rhestr o'r troseddau / digwyddiadau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi. / Below is a list of crimes / incidents that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards.

Adroddiad Tachwedd/November Report
Adroddwyd am 16 trosedd yn Ward Tref Llandysul, 1 pryder am ddiogelwch y cyhoedd a lles, a 2 adroddiad traffig a 2 drosedd, 1 diogelwch personol a 6 adroddiad trafnidiaeth yn ward Pontsiân a Chapel Dewi ym mis Tachwedd / 16 crimes were reported in Llandysul Town Ward, 1 public safety and welfare concerns, and 2 traffic reports and 2 crimes, 1 personal safety and 6 transport reports in Pontsian and Capel Dewi ward in November

Ward Tref Llandysul Town Ward
Trosedd – Domestig /– Domestics - 5
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd - Dwyn – Crime – Theft– 1
Adroddiad am ddwyn potel / Theft of bottle reported
Difrod Troseddol/Criminal Damage – 2
1 adroddiad am ddifrod i gerbyd /1 report of damage to vehicle
1 adroddiad am ddifrod i eiddo/1 report of damage to property
Trosedd - Ymosodiad /Crime- Assault -1
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd – Cyffuriau – Crime - Drugs – 1
Tyfu canabis mewn adeilad gwag / Cannabis cultivation in derelict building
Pryderon Diogelwch y Cyhoedd a Lles / Public Safety and Welfare Concerns – 1
Troseddau Traffig – 2 adroddiad / Traffic Offences – 2 reports
1 pryder am gyflwr cerbyd / 1 concern for condition of vehicle
1 cerbyd a adawyd yn peri rhwystr / 1 abandoned vehicle causing obstruction

Ward Pontsiân a Chapel Dewi / Pontsian and Capel Dewi Ward
Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harassment - 1
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd – Domestig /– Domestics – 1
Y ddau barti yn adnabod ei gilydd / Both parties known to each other
Pryderon am Ddiogelwch y Cyhoedd / Public Safety concerns 1
Trafnidiaeth / Transport – 6
3 damwain Ffordd – Dim anafiadau / 3 Road Traffic collision – No injuries
1 dafad ar y ffordd / 1 sheep on road
1 pryder ynghylch gyrru heb yswiriant / 1 concern with driving no insurance
1 adroddiad am goeden wedi cwympo / 1 report of tree down

Y Clerc i gysylltu â'r PCSO ynghylch rhai preswylwyr yn Llandysul, y mae ganddynt ddiddordeb mewn sefydlu cynllun Gwarchod Cymdogaeth ac i weld pa wybodaeth sydd ar gael a'r hyn y byddai'n ei olygu. Penderfynwyd gofyn a fyddai cynrychiolydd yn gallu mynychu cyfarfod ar ôl ei drefnu.
Clerk to contact the PCSO with regards to some Llandysul residents that are interested in starting a Neighbourhood Watch scheme and to see what information was available and what it involves. It was decided to ask if a representative would be able to attend a meeting once scheduled.

Cofnodion/Minutes
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11/11/24 ar ôl cywiro sillafiad enw Peter Evans yn rhestr y Cynghorwyr a oedd yn bresennol. / Minutes of monthly meeting held on 11/11/24 were confirmed following correcting the typo in Peter Evans's name in the Councillors present.

Hyfforddiant/Training
Penderfynwyd gohirio'r hyfforddiant ynghylch defnyddio ap 'What three words' nes y cynhelir trafodaethau pellach gyda'r Cyngor Sir.

Materion yn Codi: - Roedd y bolardiau a'r golau ynddynt ar gyffordd croesffordd Horeb wedi cael eu trwsio. Roedd y clerc wedi anfon adroddiad byr ymlaen, a baratowyd gan Gynghorydd Beth Davies, yn nodi manylion y pwyntiau a godwyd yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar gydag Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor ar 28/11/24 yn Aberteifi. **4) Ceisiadau Ariannol:** Nid oedd unrhyw geisiadau ariannol. **5) Materion i'w Trafod** **<u>Lle Chwarae Plant Llandysul</u>** Roedd Cynghorydd B Scott-Jones wedi edrych i weld faint o'r ffens oedd wedi pydru a faint o bren yr oedd angen ei ddisodli. Byddai'n anfon neges e-bost at y clerc a fyddai'n cynnwys gwybodaeth i'w hanfon i'r Cynghorwyr gyda'i gostau. **<u>Materion Ward Brys</u>** **<u>Capel Dewi</u>** Gofynnodd Cynghorydd Douglas Davies i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch cael biniau halen yn y lleoliadau canlynol Rock Mill Bryngolau Llanfair Hysbyswyd Cynghorydd Davies o'r ffaith bod y Clerc wedi archebu biniau halen i'w gosod ger Rock Mills ac ar y ffordd sy'n arwain at Fryngolau, gan na fyddai'r Cyngor Sir yn eu gosod yn y lleoliadau hyn, gan nad oeddent yn bodloni meini prawf eu matrics. Byddai'r clerc yn rhoi sylw i'r cais am fin halen yn Llanfair. Oherwydd ei lleoliad, mae dŵr yn rhedeg i lawr y rhiw ac yn achosi llifogydd yn y gysgodfan fysiau yng Nghapel Dewi pan fydd hi'n bwrw'n drwm. Penderfynwyd y byddai'r clerc yn cysylltu â Rhodri Thomas i godi lefel y llawr dair modfedd er mwyn atal y dŵr rhag achosi llifogydd yn y gysgodfan. **<u>Llandysul</u>**	**Matters Arising: -** The bollards and the lighting therein on Horeb crossroads junction had been successfully repaired. Clerk had forwarded a short report prepared by Cllr Beth Davies detailing the points raised at the recent meeting held with the Leader and Chief Executive of the Council on 28/11/24 at Cardigan. **4) Funding Applications:** There were no funding applications. **5) Matters for Discussion** **<u>Llandysul Children's Play area</u>** Cllr B Scott-Jones had investigated how much of the fence was rotten and how much of the timber needed replacing. He would email the clerk with information to send to the Councillors with his costings. **<u>Urgent Ward Matters</u>** **<u>Capel Dewi</u>** Cllr Douglas Davies requested that the clerk contacts the County Council with regards to having grit bins at the following locations Rock Mill Bryngolau Llanfair Cllr Davies was advised that Clerk had ordered grit bins to be placed at Rock Mills and on the road leading to Bryngolau as the County Council would not place them at these locations, as it did not meet their matrix criteria. The Clerk would follow up the request for the grit bin at Llanfair. The bus shelter at Capel Dewi, due to its location, is subject to water running down the hill and flooding the shelter during heavy rainfall. It was decided that the clerk contact Rhodri Thomas to raise the floor level by three inches to stop the water from flooding the shelter. **<u>Llandysul</u>**

Esboniodd Cynghorydd Keith Evans bod y Goleuadau Nadolig wedi peri cryn broblemau eleni, o ganlyniad i'r tywydd garw yn ôl pob tebyg. Dywedodd bod S M Fabrications wedi gosod y pyst golau newydd a'r gosodiadau cysylltiedig ar adeiladau amrywiol ar gyfer y goleuadau Nadolig ar gyfer Ffordd Newydd. Mynegodd Cynghorwyr Eifion Rees a Peter Evans yr angen am ddau fin halen ym Mharc yr Ynn ac wrth fynedfa Y Ffawydd hefyd. Penderfynwyd y dylai'r Cynghorwyr gyfleu'r union leoliadau er mwyn lleoli'r biniau hyn i'r clerc, er mwyn iddi allu cyflwyno'r cais i Geredigion. Mae'r goleuadau ar Stryd y Bont bellach yn gweithio. **<u>Pontsiân</u>** Esboniodd Cynghorydd Sue Lloyd bod angen bin halen ym Maesymeillion o Ffordd Tre-groes. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir. Nododd yr aelodau bod carafán wedi cael ei gosod mewn lleoliad ac nad oedd unrhyw beth wedi ymddangos mewn hysbysiadau ceisiadau cynllunio. Penderfynwyd dwyn sylw Cyngor Ceredigion at y mater. <u>Adroddiad gan Gynghorwyr Sir</u> Cafwyd gohebiaeth ar ffurf neges e-bost yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans, ward De Llandysul yn ystod y cyfnod rhwng 12 Tachwedd 2024 ac 09 Rhagfyr 2024 ac fe'i nodwyd. <u>Gohebiaeth</u> <u>Cyngor Sir Ceredigion</u> Cafwyd llythyr gan Gyngor Sir Ceredigion ynghylch Trefniadau Praesept 2025/26. Penderfynwyd y bydd y clerc a'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod rhwng y Nadolig a'r cyfarfod nesaf er mwyn creu cynnig cyllideb drafft, yn barod i'w ystyried yn ystod y cyfarfod llawn. Cafwyd neges e-bost ynghylch y biniau baw	Cllr Keith Evans explained that the Christmas Lights had been very problematic this year, due probably to the extreme weather conditions. He advised that S M Fabrications had erected the new lighting columns and associated fittings onto various buildings for the festive lights earmarked for part of New Road. Cllrs Eifion Rees and Peter Evans also expressed a need for two grit bins in Parc yr Ynn and at the entrance of The Beeches. It was decided that the Cllrs come back to the clerk with precise locations for the siting of these bins to enable Clerk to make the request to Ceredigion. Lights on Bridge Street are now working. **<u>Pontsian</u>** Cllr Sue Lloyd explained the need of a grit bin in Maesymeillion from the Tregroes Road. The clerk to contact the County Council. Members noted that a caravan had been placed at location and nothing had appeared on the planning application notices. It was decided to bring the matter to the attention of Ceredigion Council. <u>Report by County Councillors</u> E-mail correspondence was received as requested providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 12 November 2024 to 09 December 2024 and noted. <u>Correspondence</u> <u>Ceredigion County Council</u> Letter was received from Ceredigion County Council regarding 2025/26 Precept Arrangements. It was decided that the clerk and finance sub-committee meet between Christmas and the next meeting to create a draft budget proposal

cŵn ym Mharc yr Ynn. Bydd Cynghorwyr Peter Evans ac Eifion Rees yn anfon yr union leoliadau, nifer y biniau y mae eu hangen, a manylion y mynediad i'r lleoliadau lle y maent yn dymuno gosod y biniau, i'r clerc. Cafwyd Clerks and Councils Direct ac fe'i nodwyd. <u>Cynllunio</u> Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio. <u>Gwybodaeth Ariannol</u> <u>Llinos Jones</u> – Ysgrifennwyd siec am y swm o £110.30 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Tachwedd. <u>S M Fabrications</u> – gosod 5 o byst goleuadau Nadolig a'r gosodiadau cysylltiedig, ac ysgrifennwyd siec am y swm o £3000.	ready for consideration at the full meeting. An email was received with regards to the dog fouling bins in Parc yr Ynn. Cllrs Peter Evans and Eifion Rees to send the clerk the precise locations, the number of bins required, and the access to the locations that they wished for the bins to be placed at. Clerks and Councils Direct were received and noted. <u>Planning</u> There were no planning applications. <u>Financial Information</u> <u>Llinos Jones</u> – Cheque for £110.30 was written for November translation. <u>S M Fabrications</u> – Installation of 5 x Christmas lighting columns and associated fittings and a cheque for £3000 was written.

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

		£ c/£ p	*Rhif siec/ Cheque number*
Nia Davies	Cyflog y Clerc Back Pay	367.66	001291
HMRC	Cyflog y Clerc Back Pay	114.64	001292
Nia Davies	Cyflog y Clerc	577.97	001293
HMRC	Cyflog y Clerc	144.40	001294
Nia Davies	Rhyngrwyd/Broadband	113.97	001295
Llinos Jones	Cyfieithu/Translation	110.30	001296
S M Fabrications	Codi Pyst Goleuadau Nadolig a deunydd eraill / Installation of Christmas lights columns and associated fittings.	3000.00	001297
Nia Davies	Ad-daliad adnoddau goleuadau Nadolig/Christmas Lights goods reimbursement	383.93	001298